

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2022.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
24 Ionawr 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2022 (“Gorchymyn 2022”) yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2018 (“Gorchymyn 2018”), sy'n dynodi cyrff mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Effaith y diwygiad yw dileu North East Property LP (rhif cwmni LP017936) o'r rhestr o gyrff i'w hychwanegu at yr Atodlen i Orchymyn 2018, ac ychwanegu North East Property (GP) Limited (rhif cwmni 04069901) (“y Corff a Ychwanegwyd”) at y rhestr honno. Diben dynodiad o'r fath yw galluogi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan gyrff o'r fath i gael ei chynnwys mewn Cynnig Cyllidebol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae adrannau 126A(9) a (10) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“Deddf Llywodraeth Cymru 2006”) yn darparu y gall Gorchymyn 2022 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

2.2 Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o'r farn y dylai Gorchymyn 2022 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol gan nad oes unrhyw ffactorau sy'n awgrymu y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Mae Gorchymyn 2022 yn dynodi'r Corff a Ychwanegwyd at ddibenion cynnwys gwybodaeth mewn Cynnig Cyllidebol sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir i'r corff hwnnw eu defnyddio. Bydd cynnwys adnoddau'r cyrff dynodedig o fewn y Cynnig Cyllidebol yn lleihau anghysondebau alinio rhwng y Gyllideb, y Cynnig Cyllidebol a'r cyfrifon cyfunol, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar derfynau adnoddau'r cyrff hynny. Felly, gellir ystyried mai gweinyddol yw pwnc Gorchymyn 2022 gan mai effaith gyflwyniadol fydd iddo o ran y Gyllideb.

2.3 I'r gwrthwyneb, mae ffactorau sy'n tueddu i gefnogi'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol yn cynnwys achosion lle mae'r ddeddfwriaeth yn golygu gwariant sylweddol gan y llywodraeth. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn arwain at wariant sylweddol gan y llywodraeth.

2.4 Mae adran 126A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i gorff gael ei ddynodi am flwyddyn ariannol benodol, neu ei ddynodi'n gyffredinol. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o'r farn y dylai'r Corff a Ychwanegwyd gael ei ddynodi “yn gyffredinol”. Mae hyn yn cydymffurfio â'r gorchymynion blaenorol ac mae'n golygu y bydd y Corff a Ychwanegwyd yn parhau i gael ei ddynodi ac na fydd angen iddo gael ei ddynodi'n flynyddol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Gorchymyn 2022 gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 126A(2)(a) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dyma'r chweched Gorchymyn i'w wneud gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau hyn.
- 3.2 Yn unol ag adran 126A(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Thrysorlys Ei Mawrhydi cyn gwneud Gorchymyn 2022. Er hynny, ni fu angen gofyn am gydsyniad Trysorlys EM yn unol ag adran 126A(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan nad yw Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r defnydd o adnoddau gan y Corff a Ychwanegwyd gynnwys taliadau o Gronfa Gyfunol berthnasol i'r corff hwnnw neu er budd y corff hwnnw.
- 3.3 Mae Gorchymyn 2022 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 126A(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 3.4 Mae'r Corff a Ychwanegwyd yn cael ei ddynodi'n "gyffredinol" yn unol ag adran 126A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben

- 4.1 Diben Gorchymyn 2022 yw cywiro camgymeriad yng Ngorchymyn 2018 trwy ddileu North East Property LP (rhif cwmni LP017936) o'r rhestr o gyrff dynodedig yn yr Atodlen i Orchymyn 2018, a oedd wedi'i fewnosod trwy gamgymeriad gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021 ("Gorchymyn 2021"). Mae Gorchymyn 2022 hefyd yn ychwanegu'r Corff a Ychwanegwyd at yr Atodlen honno. Mae'r diwygiad hwn yn angenrheidiol gan nad yw North East Property LP (rhif cwmni LP017936) wedi'i ddsbarthu i sector y llywodraeth ganolog ac nid yw'n rhan o gyfrifon cyfunol Grŵp Banc Datblygu Cymru tra bo'r Corff a Ychwanegwyd wedi'i ddsbarthu i sector y llywodraeth ganolog ac mae'n rhan o gyfrifon Cyfunol Grŵp Banc Datblygu Cymru. Nid yw ond yn briodol i gyrff sy'n perthyn o fewn sector y llywodraeth ganolog gael eu dynodi gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018.
- 4.2 Gosodwyd Gorchymyn 2021 ar 1 Rhagfyr 2021 i ddod i rym ar 1 Chwefror 2022. Mae'r [Memorandwm Esboniadol i Orchymyn 2021](#) yn darparu mwy o fanylion am gefndir ac effaith dynodi cyrff penodedig at ddiben cynnwys mewn Cynnig Cyllidebol yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio.

Effaith

- 4.3 Bydd Gorchymyn 2022 yn caniatáu i Gynigion y Gyllideb gael eu halinio'n agosach â Ffin Cyfrifon Cyfunol presennol Llywodraeth Cymru.
- 4.4 Ni fyddai unrhyw effaith ar gyllidebau'r Prif Grwpiau Gwariant ac effaith gyfyngedig yn unig ar baratoi'r cyfrifon cyfunol.
- 4.5 Nid yw Gorchymyn 2022 yn diwygio nac yn cydgrynhoi unrhyw ddarn arall o ddeddfwriaeth.
- 4.6 Caiff copïau o Orchymyn 2022 eu hanfon at holl dderbynwyr hysbys yr Offeryn Statudol hwnnw er mwyn sicrhau nad yw defnyddwyr y mae angen iddynt ei brynu'n cael eu rhoi o dan anfantais trwy orfod talu amdano.

5. Ymgynghori

- 5.1 Ymgynghorwyd â Thrysorlys EM yn unol ag adran 126A(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ar y Corff a Ychwanegwyd a gynigiwyd i'w ddynodi.

6. Asesiad o Effaith Reoleiddiol (RIA)

- 6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi i gyd-fynd â Gorchymyn 2022; ni ddisgwylir iddo osod unrhyw gost ar sectorau cyhoeddus, preifat, busnes, elusennol neu wirfoddol. Mae hyn yn gyson â Chod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.
- 6.2 Mae'r Corff a Ychwanegwyd sydd i'w ddynodi yng Ngorchymyn 2022 eisoes yn rhan o reolaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru ac felly mae Grwpiau Llywodraeth Cymru eisoes yn monitro gwariant yn ystod y flwyddyn.